

❖ GWEDDI NADOLIG

gan Gyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill

Dduw pob gras ac Arglwydd pob gobaith –
ymdawelwn ger dy fron o ganol sŵn a sylw'r byd,
gan geisio dy dangnefedd.
Gwyddost am ein dyheadau a'n pryderon,
ein llawenydd a'n tristwch, a'n hawydd i foli dy enw di.
Ti yw'r hwn sy'n oleuni mewn byd tywyll
a gwirionedd mewn cymdeithas dwyllodrus.
Weithiau byddwn yn gweld bywyd fel cylchdro o anobaith,
a ninnau heb syniad yn y byd o'r cyfeiriad sy'n briodol i ni.
Byddwn yn wynebu dewisiadau anodd
ac yn cloffi wrth ystyried yr opsiynau.
Gwyddom hefyd am brofiadau heb ddewis o gwbl.
Helpa ni i fod yn gadarnhaol ac i beidio digalonni.
Diolch am deulu a chyfeillion sy'n gynhaliaeth ac yn gwmni,
A gweddiwn am y modd i fod yn ffrindiau da i eraill.
Cydyndeimlwn â'r sawl sy'n ddi-waith
ac yn ddibynnol ar y wladwriaeth am eu cynhaliaeth.
Bydd eraill yn gorfod brwydro yn erbyn afiechyd
heb fodd na nerth i ymdopi â'u swydd.
Gwerthfawrogwn mai ffin denau sydd rhwng hapusrwydd a thristwch,
bodlonrwydd neu anfodlonrwydd mewn bywyd,
yn hunan-gynhaliol neu'n ddibynnol ar rywbeth neu rywun arall.
Arglwydd, eiriolwn drostynt ger dy fron.
Diolchwn am warineb mewn perthynas a chymdeithas sefydlog,
am aelwyd ddiogel mewn cymdogaeth beryglus.
Diolchwn, Arglwydd, am bob ystafell fyw, sy'n gynnes a chroesawgar,
ac yn arbennig am yr Ystafell Fyw yng Nghaerdydd
sy'n croesawu'r unig a'r bregus.
Gweddiwn y bydd y sawl sy'n gaeth i grafangau pob chwant a blys
yn darganfod drws gobaith yr Ystafell Fyw,
ac yn medru ymddiried yn y cyfeillion yno
fel eu bod yn profi cymdeithas ffydd a thrugaredd nad yw'n barnu eraill.
Diolch am neges y Nadolig sy'n croesawu pawb at ymyl preseb y lloches ddwyfol
heb osod amodau, ac sy'n rhannu cymdeithas trugaredd.
Deuwn Arglwydd i'th addoli di, drwy weld gwerth ym mhawb
ac i'th garu di drwy garu eraill.
Gwrando arnom, yn enw Iesu'r crud a Iesu'r groes.
Amen.

Denzil I. John